Polisi Disgyblion Dawnus a Thalentog

1 Cyflwyniad

1.1 Yn Ysgol Iolo ein nôd yw creu cwricwlwm sy'n addas ar gyfer anghenion a galluoedd pob un o'n disgyblion. Rydym yn cynllunio ein dysgu a'n haddysgu mewn modd sy'n galluogi pob plentyn i ymgyrraedd tuag at y lefel uchaf o gyrrhaeddiad personol. Rhown bob cymorth i'n disgyblion i ddatblygu eu sgiliau a'u galluoedd academaidd, emosiynol a chymdeithasol ac mae'r polisi hwn yn ein cymorthwyo ni i sicrhau ein bod yn adnabod ac yn cefnogi y plant hynny yn Ysgol Iolo Morganwg sydd wedi eu hadnabod fel bod yn 'ddawnus', yn 'ddisglair' ac yn 'dalentog' yn ôl canllawiau cenedlaethol

1.2 Yn y canllawiau hyn mae'r term **'dawnus'** yn cyfeirio at blentyn sy'n cyflawni ar draws ystod o feysydd ar lefel uchel iawn. Mae'r plant hynny a gyfeirwyd atynt fel rhai **'disglair'** gyda sgiliau dysgu sydd wedi datblygu'n eithriadol o dda tra bod y term **'talentog'** yn cyfeirio at blant sydd yn rhgagori mewn un neu fwy o feysydd penodol megis chwaraeon neu gerddoriaeth ond sydd ddim yn perfformio ar lefel uchel ar draws holl feysydd dysgu.

Plentyn disglair (neu mwy galluog) yw plentyn sydd yn y 5-10% uchaf o boblogaeth disgyblion yr ysgol neu grwp dosbarth (diffiniad DfES) sydd

yn perfformio neu sydd a'r **potensial i** berfformio ar lefel uchel iawn o fewn maes academaidd.

Plentyn talentog yw plentyn sydd yn y 5-10% uchaf o boblogaeth disgyblion yr ysgol neu grwp dosbarth ac sydd a gallu penodol mewn maes sydd ddim yn faes academaidd:

* Talent Corfforol	chwaraeon, gemau, sgiliau, medusrwydd
* Galluoedd Gweledol/Perfformio	dawns, symudiad, drama
* Dyfeisgarwch Mecanyddol	adeiladu, creu a dad greu gwrthrychau, systematig, datrysiadau gweithredol
* Arweinydd Eithriadol	trefnydd, arweinydd tim gwych, pendefyniadau pendant
* Ymwybyddiaeth Cymdeithasol	sensitifrwydd, empathi
* Creadigedd	artistig, cerddorol, gallu ieithyddol

Y mae plentyn dawnus, fel y'i diffinir gennym ni yn Ysgol Iolo, yn blentyn sydd yn, neu sydd a'r gallu i gyflawni ar lefel sydd yn sylweddol uwch na ddisgwylir i'w gyfoedion ei gyrraedd. Gall hyn fod ymhob maes cwricwlwm neu o fewn ystod cyfyngedig. Rydym ni yn diffinio lefel sylweddol uwch fel o leiaf dwy lefel cwricwlwm yn uwch na ddisgwylir e.e. lefel 4 pan ddisgwylir Lefel 2 ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen neu lefel 6 pan ddisgwylir lefel 4 ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2.

Cyfyngir y cysyniad arferol o blentyn dawnus o ran seicoleg addysg i ganran isel o blant - o bosibl mor isel ag 1 neu 2%. Yn unol â chanllawiau'r DfES mae'n rhaid felly ystyried y ffigwr 5-10% fel un sy'n gorfod cynnwys y disgyblion hynny a ddynodwyd fel rhai disglair a thalentog ac nid oes angen sylw arbennig ar y mwyafrif o'r plant hyn

yn y cwricwlwm eang, cytbwys a gwahaniaethol a ddarperir gan Ysgol Iolo Morganwg. Fe gaiff y plant disglair eu targedu yn y dosbarth i sicrhau eu bod yn cael eu herio a'u datblygu i'w llawn botensial ac fe gaiff y plant talentog y gefnogaeth orau bosib i ddatblygu cyn belled a phosib yn yr ysgol. Nid oes angen ymyrraeth pellach arnynt.

Gellir gweld llawer o'r polisi hwn felly fel un sy'n benodol berthnasol i'r 2% uchaf o boblogaeth disgyblion yr ysgol, eu rhieni a'u hathrawon.

Y Plentyn disglair a'r plentyn dawnus – y gwahaniaeth

Gellir defnyddio'r meini prawf canlynol i wahaniaethu rhwng y plentyn mwy abl a'r plentyn wirioneddol ddawnus :

Plentyn Disglair	Plentyn Dawnus
Yn ymddiddori	Yn chwilfrydig iawn
Gyda syniadau da fel arfer	Gyda syniadau da bob amser ac weithiau syniadau ochrol â all ymddangos ar y dechrau i fod yn rhai dwl.
Yn gwybod y rhan fwyaf o'r atebion	Yn gwybod y rhan fwyaf o'r atebion ac yn dechrau gofyn cwestiynau
Yn ateb cwestiynau yn briodol	Yn gofyn cwestiynau ond yna'n dechrau ymhelaethu

Angen ailadrodd mynych ar gyfer meistroli sgil	Yn meistrioli sgil ar o lei ailadrod un waith neu ddwy yn unig.
Deall syniadau	Adeiladu haniaethau
Mwynhau cwmni cyfoedion	Yn fwy hoff o gwmni oedolion
Deall ystyron	Tynnu casgliadau
Copio'n gywir	Creu gwaith a dyluniadau gwreiddiol
Technegydd/gweithredydd	Crëwr/Dyfeisiwr
Amsugno gwybodaeth	Trin gwybodaeth
Yn gallu cofio'n dda	Yn gallu cofio'n dda a thybio yn ddeallus
Gwneud sylwadau ar ôl gweld sut mae gwneud	Yn eithriadol o graff
Yn fodlon gyda'r gwaith a wna	Yn hunanfeirniadol iawn ac yn gosod safonau uchel eithriadol.
Yn mwynhau problemau uniongyrchol dilyniannol	Ffynnu ar gymhlethdod

Dywed Nodau ac Amcanion yr Ysgol ein bod yn ceisio:

"annog pob disgybl i adnabod a chyrraedd ei wir botensial", h.y. bod ag agwedd gadarnhaol at ddysgu gydol oes gyda'r gallu i d dangos menter."

Er mwyn cyrraedd y nod hwn mae angen adnabod gwir natur a photensial plentyn dawnus cyn y gellir gwneud darpariaeth briodol. Fodd bynnag, nid yw'n hawdd adnabod pob plentyn dawnus. At ddibenion eu hadnabod a'u cynorthwyo gellir grwpio disgyblion dawnus fel a ganlyn:

1 Yn ddawnus yn gyffredinol - yn rhagori ym mhopeth a wnant ac yn mwynhau eu llwyddiant - hawdd eu hadnabod.
2. Dawnus dalentog - yn meddu ar allu arbennig mewn un maes, e.e. mathemateg neu gerddoriaeth - yn gymharol hawdd eu hadnabod gan eu bod hefyd yn tueddu i fod yn alluog a llwyddiannus yn academaidd.
3. Dawnus gwrthryfelgar - yn meddu ar ystod o broblemau ymddygiad sydd i'w gweld fel ymddygiad aflonyddgar a thangyflawni - yn aml fe'u dynodir yn anghywir fel bod yn hollol aflonyddgar a /neu o allu isel.
4. Creadigol ddawnus - meddylwyr dwys sy'n aml yn amhoblogaidd gyda'u cyfoedion oherwydd y canfyddiad o ddiffyg sgiliau cymdeithasol a nodweddion cyffredin - yn aml fe'u dynodir yn anghywir fel rhai aflonyddgar.
5. Cudd-ddawnus - tangyflawnwyr sydd ddim am fod yn wahanol i'w cyfoedion ac felly ymdoddant i'w grŵp cyfoedion - yn aml fe'u dynodir yn anghywir fel rhai sy'n tangyflawni neu yn syml yn rhai llai galluog.

Mae ffactorau amgylcheddol ac etifeddol yn dylanwadu ar fynegiant gallu a chyflawniad uchel. Gyda gwir gefnogaeth rhieni a'r ysgol bydd y rhan fwyaf o blant yn datblygu hunan hyder a byddant yn ymgyrraedd i gyflawni eu potensial cynhenid.

ADRAN 2 Nodau:

Nodau Ysgol Iolo Morganwg yw:

- datblygu strategaethau ysgol gyfan i adnabod, addysgu a chefnogi'r dawnus er mwyn meithrin eu gallu ar gyfer dysgu a meddwl yn greadigol heb gyfyngiad.
- sicrhau bod y dulliau hyn yn cael eu defnyddio, eu haddasu a'u defnyddio ym mhob dosbarth/maes/pwnc;
- sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer plant dawnus oddi fewn i'r ysgol a'r AALl gan roi sylw arbennig i'r

I. Uwch Dim Reoli (UDRh);
II. y CAAA (Wendy Farleigh) a'r athrawes ddynodedig (Ann Kaye) sydd gyda cyfrifoldeb penodol am y plant dawnus;
III. y llywodraethwyr dynodedig (Mrs Baty) sydd gyda cyfrifoldeb am y plant dawnus.

ADRAN 3 Yr Angen am Adnabod yn Gynnar

Mae gan blant dawnus syched mawr am wybodaeth ac mae'n hanfodol ein bod yn adnabod yr angen hwn cyn gynted â phosibl fel bod rhieni ac athrawon yn gallu rhoi'r lefel o gefnogaeth sydd ei angen arnynt er mwyn iddynt allu datblygu eu talentau. Pan gredir bod plentyn yn ddawnus caiff ei asesu cyn gynted ac mor drwyadl a phosib er mwyn cael y wybodaeth angenrheidiol er mwyn sefydlu rhaglen o gefnogaeth addas ac effeithiol.

Gall y cais i asesu plentyn dawnus ddod o amryw o ffynonellau, e.e.

cais gan athrawon yn dilyn arsylwadau neu'r defnydd o restrau gwirio;

cais gan y disgybl ei hun;

cais gan riant;

cais grŵp cyfoedion;

cais rheolwyr;

cais DHA neu Feddyg Teulu;

yn dilyn gwybodaeth o ysgol flaenorol (e.e. ysgol feithrin);

yn dilyn profi cyffredinol disgyblion meithrin/CS, profion CA2, asesiadau athrawon;

yn dilyn profion diagnostig;

yn dilyn cyfweliadau unigol;

yn dilyn tystiolaeth o weithgareddau y tu allan i'r ysgol;

yn dilyn tracio ac arsylwi disgyblion unigol.

Fel llawer o blant eraill gall plant dawnus yn aml fethu cyflawni eu potensial. O ganlyniad i fethu ymdopi a'u galluoedd neu ddiflastod a diffyg diddordeb fe gant anawsterau sy'n gallu arwain at broblemau dwys. Felly mae adnabod, asesu a darpariaeth gynnar yn bwysig iawn ar gyfer unrhyw blentyn dawnus am y rhesymau canlynol:

1. Gall ymyrraeth a darpariaeth addas a chynnar leihau'r anawsterau y gellir dod ar eu traws, anawsterau megis:

Hunan hyder a hunan ddelwedd isel;

lefel uchel o rwystredigaeth a hunan feio;

sgiliau astudio gwael;

ynysu cymdeithasol – y gred eu bod wedi eu camddeall a'u bod yn wahanol i'w cyfoedion;

osgoi cyfundrefnau academaidd;

problemau gyda chanolbwyntio;

byw yn eu byd bach eu hunain.

2. Gall amlhau i'r eithaf ymateb cadarnhaol tebygol y plentyn, e.e. efallai y caiff plant dawnus sy'n tangyflawni hwb angenrheidiol pan wireddant eu potensial drwy gael gradd Cyniferydd Deallusrwydd (IQ) uchel.

3. Gall olygu bod anhawster dysgu dros dro yn cael ei oresgyn ac na fydd yn effeithio ar ddysgu yn y dyfodol.

4. Os yw anawsterau dysgu'r plentyn yn ddwysach na'r hyn all yr ysgol ddarparu ar eu cyfer ar ei phen ei hun, gellir dod a'r asiantaethau allanol i mewn yn gynharach ac yn fwy na thebyg gyda mwy o lwyddiant.

Mae'r broses yn dechrau drwy gydgysylltu gyda'r Cylchoedd Meithrin sy'n ein bwydo. Mae athrawes y Feithrin yn ymweld â phob cylch sy'n ein bwydo i gyfarfod a darpar ddisgyblion ac athrawon yn ystod y

tymor cyn y byddant yn trosglwyddo i'r ysgol gynradd. Yn ogystal trefnir cyfarfod yn ystod y tymor cyn mynediad, pan wahoddir cynrychiolwyr o'r holl sefydliadau bwydo i ymweld ag Ysgol Iolo. Bydd hyn yn gyfle i drosglwyddo gwybodaeth am bob un o'r disgyblion.

Gyda strategaethau a threfn y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu o'r Feithrin hyd at Flwyddyn 2 bellach mae dysgu'r plant yn digwydd yn naturiol ac yn ol eu gofynion unigol. Trwy asesu ac arsylwi cyson ceir darlun llawn o allu ac anghenion pob plentyn ac ynghyd a chanlyniadau'r profion gwaelodlin, NFER a darllen gellir gwneud penderfyniad yn fuan iawn os oes angen cefnogaeth ar ddisgyblion. Gan fod gwahaniaethu a herio effeithiol yn deillio o'r gweithgareddau ac ymateb unigolion iddynt a bod y dysgu yn dilyn diddordebau a datblygiad y plant dim ond mewn amgylchiadau eithriadol neu ble mae gofidion am hunan hyder/hunan ddelwedd/ ymddygiad plentyn y bydd ymyrraeth penodol yn y blynyddoedd yma. Er hyn rydym yn tracio ac yn monitro plant sy'n dangos arwyddion o fod yn ddawnus yn ofalus iawn.

Yng Nghyfnod Allweddol 2 gwneir y penderfyniad os am roi cefnogaeth ai peidio wedi asesiadau penodol yn sgil cais am ymyrraeth gan un neu fwy o'r ffynonellau a nodwyd yn adran 1.

Darparu'r Gefnogaeth

Bydd rhai disgyblion yn derbyn cefnogaeth yn yr ystafell ddosbarth ac fe gaiff nifer fechan eu tynnu allan ar gyfer mwy o gymorth unigol mewn ardal arall. Rydym bob amser yn sicrhau bod Anghenion Addysg Arbennig ein disgyblion yn hysbys i ysgolion eraill y gallant drosglwyddo iddynt.

ADRAN 4 Darpariaeth Strategol:

Er mwyn sicrhau bod disgyblion a ddynodwyd yn rhai dawnus yn cael eu herio'n briodol, bydd athrawon yn addasu maint ac /neu ehangder y tasgau a gyflwynir iddynt. Yn ogystal anogir neu gofynnir i'r cyfryw ddisgyblion ddarllen, ysgrifennu a siarad ynglŷn â'u gwaith ac i gyfrannu mewn trafodaethau a/neu i weithio gyda disgyblion dawnus tebyg.

Y Cwricwlwm

Nid oes cwricwlwm manwl, safonol ar gyfer plant dawnus oherwydd bod eu hanghenion yn unigol iawn. Mae'r pwyslais ar ddatblygu rhaglen wedi ei seilio ar dargedau er mwyn:

diwallu anghenion plant unigol;

adeiladu ar eu cryfderau unigol;

annog datblygiad mewn meysydd y mae angen cefnogaeth arnynt.

Ar gyfer pob disgybl mae cwricwlwm ysgol wedi ei strwythuro'n dda, sy'n ymgorffori gwahaniaethu (gweler polisi ar wahan) ac yn rhoi iddynt amgylchedd y gallant ffynnu ynddo. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig cofio y gall plant dawnus fod sawl blwyddyn ar y blaen i'w cyfoedion yn academaidd ond yn dal i fod yn debyg i'w hoedran cronolegol yn emosiynol a chymdeithasol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd o arweinyddion cwricwlwm profiadol i ddynodi a darparu ar gyfer y plentyn dawnus mewn meysydd academaidd. Yn ogystal gellir darparu ar gyfer plant sy'n dangos gallu eithriadol mewn meysydd eraill trwy gysylltu ag asiantaethau allanol i ddod i fewn neu i gydweithio gyda ni i roi profiad a hyfforddiant mewn meysydd y tu hwnt i gwricwlwm bob dydd yr ysgol.

ADRAN 5 Rolau a Chyfrifoldebau

a) Rôl yr AALl

1. Ysgogi a darparu cefnogaeth strategol ar gyfer rhaglen wella barhaus er mwyn codi safonau addysgu a dysgu ar gyfer plant dawnus o'r cynllunio dechreuol i ddarpariaeth.

b) Rôol y Llywodraethwyr

1. Sicrhau bod ffocws ar y plant dawnus yn yr ysgol.
2. Bod a throsolwg a chyfrifoldeb am ddarparu ar gyfer plant dawnus o fewn yr ysgol ac i sicrhau adnoddau digonol.
   Mae penodi llywodraethwr i gymryd diddordeb arbennig mewn plant dawnus yn dangos y flaenoriaeth a roddir gan y Corff Llywodraethol i'r maes yma.

   Y llywodraethwr sy'n gyfrifol am y plant dawnus ar hyn o bryd yw Mrs Baty.

3. Mynychu hyfforddiant ar addysg plant dawnus.

c) Rôl y Pennaeth/Uwch Dim Rheoli

1. Cynllunio a rheoli'n effeithiol ymagwedd tuag ar ragoriaeth drefniadol h.y. sicrhau bod amcanion dynodedig yn cael eu cyrraedd yn erbyn paramedrau cytunedig ar ansawdd, amserlen a chost. Dylai'r amcanion hyn fynd i'r afael ag anghenion yr unigolyn a'r ysgol drwy osod a chyflawni targedau penodol yng nghynllun datblygu'r ysgol.
2. Sicrhau bod y datblygiad a'r defnydd o staff yn dangos ymwybyddiaeth o ddisgyblion dawnus.
3. Arwain ac ysgogi staff yr ysgol a rhoi cychwyn ar weithgareddau ysgol gyfan mewn perthynas â disgyblion dawnus.
4. Dyrannu cyfran o'r gyllideb i addysgu a dysgu disgyblion dawnus.
5. Mapio ac archwilio sgiliau a rolau yn yr ysgol, darparu HMS priodol ar gyfer y staff a monitro perfformiad.
6. Adolygu'r cwricwlwm yn flynyddol fel ei fod yn cadw parhad, datblygiad, ehangder a chydbwysedd.
7. Bod â rôl strategol yn hyrwyddo cydweithrediad a chydweithio ar draws y cwricwlwm cyfan o ran plant dawnus.
8. Sicrhau bod disgyblion dawnus yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd Staff/Gwella Ysgol a bod arfer dda a phrofiadau yn cael eu rhannu ymhlith staff.
9. Cadw portffolio o waith eithriadol ac integreiddio hyn gyda'r gwaith âarddangosir.
10. Cynnwys adran ar blant dawnus ym Mhrosbectws yr Ysgol ???.

d) Rôl y CAAA

1. Mae'r staff AAA wedi eu hyfforddi ac yn gyfarwydd gyda dynodi ac asesu anghenion arbennig a chysylltu gydag asiantaethau allanol, ac felly mae'r CAAA wedi ymgymryd â'r rôl o gydlynu ymagwedd ysgol gyfan tuag at ddisgyblion dawnus. Mae'r CAAA yn cynghori'r UDRh ar anghenion HMS a gallant gyfrannu i

sesiynau HMS ond mae cyfrifoldeb rheoli HMS yn parhau gyda'r UDRh.

2. Cydweithio gyda'r athr/awes dosbarth i lunio cynllun ar gyfer disgyblion sy'n ddawnus a throsglwyddo'r targedau a'r camau gweithredu cysylltiedig i bawb o'r staff perthnasol.
4. Penodi mentoriaid ar gyfer y disgyblion dawnus. Mae'n rhaid i'r mentoriaid hyn fod yn bobl y mae gan y disgyblion berthynas dda gyda ac yn bobl y gallent ymddiried yn llwyr ynddynt.

e) Rôl y Cydlynydd Pwnc

1. Sicrhau y caiff disgyblion dawnus eu hystyried.
2. Gwerthuso darpariaeth yr ystafell ddosbarth ar gyfer plant dawnus yn y gylchred gynllunio a datblygu blynyddol.
3. Cynllunio polisiau sy'n annog disgyblion i adolygu eu dysgu, ymchwilio, meddwl, datrys problemau ac sy'n meithrin llwyddiant.
5. Cynorthwyo staff i gynllunio ac adeiladu ar sgiliau presennol ac i lunio targedau clir, perthnasol a chyraeddadwy ar gyfer disgyblion dawnus. Dylai bod gan bawb o'r staff ddealltwriaeth da o sgiliau addysgu.
6. Cyfeirio achosion disgyblion dawnus i'r CAAA.
7. Sicrhau y caiff disgyblion dawnus eu trafod mewn cyfarfodydd staff neu gyfarfodydd cyfnod allweddol, ac y rhennir arfer dda a phrofiadau ymhlith y staff.
10. I ddatblygu portffolio o waith eithriadol ac integreiddio hyn gyda'r gwaith â arddangosir ar draws yr ysgol.

f) Rôl yr Athro

Mae'n rhaid i bawb o'r staff ymwneud â bod yn ymrwymedig i gynllun gweithredu cytunedig i wella'r ddarpariaeth ar gyfer plant dawnus - yn

bwysicach na dim rhaid i'r holl staff addysgu gefnogi ei gilydd ac yn eu tro dderbyn cefnogaeth y UDRh.

1. Cynorthwyo i ddynodi a chyfeirio plant sy'[ddawnus ac sydd angen cefnogaeth i'r Cydlynydd Pwnc/Cydlynydd Cyfnod Allweddol/CAAA.
2. Asesu anghenion datblygu personol mewn perthynas a'u datblygiad proffesiynol.
3. Gwneud addysgu yn fwy effeithiol o ran cynnwys pwnc a dull cyflwyno a thrwy hynny gyfoethogi addysg y disgybl.
4. Cynorthwyo yng ngweithrediad llwyddiannus y cynllun gwaith ar gyfer pob disgybl dawnus.
5. Hwyluso dysgu drwy ddefnyddio amrywiaeth o weithgareddau ystyrlon sy'n cynnwys disgyblion yn y broses ddysgu.
6. Helpu disgyblion i wneud synnwyr o, ac i ddehongli, gwybodaeth a digwyddiadau er mwyn prosesu'r profiad a datblygu eu gwybodaeth a'u dealltweriaeth.
7. Gosod nodau clir a'u cyfathrebu'n effeithiol i bob disgybl.
8. Datblygu gweithgareddau sy'n annog myfyrio, cymhwyso a defnydd effeithiol o'r hyn a ddysgwyd yn y dyfodol.
9. Darparu'r strategaethau angenrheidiol sy'n hwyluso dysgu.
10. Annog y disgyblion i gynorthwyo i arddangos eu gwaith eu hunain.
11. Sicrhau bod gan blant dawnus fynediad i'r cwricwlwm drwy greu sefyllfa ble mae profiad pob disgybl o gynnwys a sgiliau yn cyfateb i'w raddfa dysgu a ble defyddir deunyddiau a strategaethau dysgu amrywiol a gwahaniaethol.

g) Rôl y Rhieni/Gwarchodwyr -

Mae'r plentyn dawnus yn:

- gofyn llawer o gwestiynau ac yn dysgu yn gyflymach a haws nag eraill.

- meddu ar gôf cyflym iawn a phwerau galw i gôf da.

- dangos gallu da i arsylwi a rhesymu, gweld cydberthnasau a chyffredinoli o ychydig o ffeithiau yn unig.

- feddylwyr dychmygus neu greadigol.

- weithiwyr annibynnol da iawn.

- chwilfrydig iawn ac yn gallu canolbwyntio am gyfnodau hir ar bynciau o ddiddordeb.

- yn dda wrth weld, gwneud, darlunio, adeiladu neu ddylunio er yn wael am siarad, gwrando ac ysgrifennu, h.y. maent yn ddawnus gyda sgiliau gweledol-ofodol a gallant ddangos dyfeisgarwch mecanyddol ac artistig eithriadol. D.S. Mae cydlyniad llygad a llaw da yn arwydd o'r ystod hon o sgiliau.

- mwynhau datrys problemau, yn aml yn hepgor y cymalau canolraddol mewn dadl ac yn gwneud cydgysylltiadau gwreiddiol.

- ymhell ar y blaen mewn mathemateg, yn arbennig am ddatrys problemau

- yn meddu dychymyg anghyffredin a all gael ei amlygu yn y modd y bydd yn ymateb i gwestiynau.

- meddu ar gryfder ewyllys a phwrpas rhyfeddol!

- meddu ar ystod eang o ddiddordebau a gwybodaeth gyffredinol a geirfa dda iawn - yn aml y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir o ran ei oedran.

- dangos teimladau a barn gref

- gallu meddu ar hiwmor da ond eithafol, treiddgar neu od.

- gosod safonau uchel iddo/i'i hun, yn berffeithydd ac yn obsesiynol ynglŷn a chywirdeb.

- dilyn diddordebau (a gysylltir yn aml a phlant hŷn neu oedolion) gyda brwdfrydedd mawr sydd weithiau yn ymylu ar fod yn obsesiwn.

- well ganddo/ganddi yn aml gemau a gysylltir a phlant hŷn neu oedolion.

- aml yn neu eisiau treulio amser gyda phlant hŷn ac/neu oedolion.

- ddawnus yn foesol, yn gymdeithasol ac o ran moeseg gyda syniad/gwybodaeth aeddfed o ganlyniadau gweithredoedd neu sefyllfaoedd. Gall hyn amlygu ei hun fel lefel uchel o sensitifrwydd ac empathi tuag at eraill.

- gallu ymddangos yn drahaus iawn ac eto yn sensitif i'r hyn a wel fel cael ei roi'n ei le .

- ymddangos yn allblyg neu'n fewnblyg o fewn grŵp cyfoedion

- gallu dangos nodweddion arweinydd.

Os na wneir darpariaeth ddigonol ar eu cyfer mae disgyblion dawnus yn tueddu i:

- syrffedu gan nad ydynt yn cael digon o her.

- ymddangos yn ddioglyd, cysglyd, ddim yn canolbwyntio, mewn breuddwyd, colli diddordeb neu ymddangos fel pe bai ganddynt allu canolbwyntio byr.

- bod ag angen llai o gwsg na'r rhan fwyaf o blant eraill o'r un oed.

- ymddangos yn dawel, yn fewnblyg neu hyd yn oed yn isel ei ysbryd.

- darfu ar wersi drwy fod yn sarrug neu drwy chware o gwmpas.

- fod yn amharod i gydweithredu, yn anodd ei ysgogi ac yn feirniadol o athrawon a chyfoedion.

- fod a sgiliau llawysgrifen a chyflwyniad sydd efallai'n llai datblygedig na'i sgiliau darllen a'i sgiliau eraill.

- gasau gwneud gwaith ar bapur oherwydd y rhwystredigaeth a achosir wrth iddynt fethu cyrraedd eu safonau uchel /amhosibl

i'w cyrraedd hwy eu hunain mewn llawysgrifen a darlunio. Dyma lle gall TGCh fod o gymorth.

- osgoi mynychu ysgol oherwydd achosion o salwch dychmygol.

- danberfformio mewn profion a hyd yn oed profion IQ - nid yw perthnasedd y profion yn amlwg ar unwaith i'r plentyn.

Cysylltiadau Defnyddiol

Mae'r canlynol yn gyrff gwirfoddol sy'n cefnogi plant dawnus:

National Association for Able Children in Education (NACE)
Room L6
Westminster College
Oxford 9X2 9AT
Ffon: 01865 245 657

The National Association for Gifted Children (NAGC)
Elder House
Milton Keynes
MK9 1LR
Ffon: 01908 673 677

The Support Society for Children of Higher Intelligence (CHI)
PO Box 4222
London SE22 8XG
Ffon: 01386 881 938.